CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
21 Mehefin 2016, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Morgan, A Williams, W Williams, W Vaughan.	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, D Pritchard, D Roberts, D ap Rhobert, A Wyn, R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D Morgan
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 10 Mai 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn, Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Llangwyllog** - Disgwyl am adroddiad gan yr Heddlu
4.2	**Gofeb Talwrn** - Mae'r clerc yn disgwyl pris am plaque gan Inigo Jones
4.3	**Hysbysffwrdd Capel Coch** - mewn llaw
4.4	**Coed - Maes y Coed** - Mae'r Clerc yn disgwyl am prisiau (wedi derbyn un pris gan Roundwood Tree Technology £720 + TAW)
4.5	**Damwain sgwar Talwrn** - mewn llaw
4.6	**Mynediad Maes y Coed** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris am y trydydd lamp - £4500 - penderfynwyd peidio symud ymlaen oherwydd y cost.
4.7	**Bainc, Mynydd Bodafon** - mae'r Clerc yn disgwyl pris am y gwaith
4.8	**Mynwent Llanddyfnan** - mae'r Clerc wedi gofyn am bin newydd a bydd yn gosod cadwyn a clo ar y bin**.**
4.9	**Llinellau Melyn** - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C280E Cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer trac amaethyddol ar dir yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - dim sylwadau
5.2	23C318B Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth ar dir ger Gorslwyd, Capel Coch -- dim sylwadau arwahan i maint y ty
5.3	23C280F Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol a parlwr godro yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - dim sylwadau
5.4	23C248F/ENF Cais ol-weithredol ar gyfer cadw sied storfa yn The Barns, Rhuddlan Fawr, Brynteg - dim sylwadau
	Llofnod…….Cadeirydd 26.07.16

5.5	23C336 Cais llawn i newid defnydd modurdy ag adeilad allanol i dau annedd yn Bryn Tirion, Talwrn - gofynnwyd y Clerc i dynnu sylw at y problem system carthffosaieth yn yr ardal 'roedd y carthffosiaeth wedi codi yn ddiweddar ar ol y tywydd mawr.
	Priffyrdd
5.6	Cost y trydydd lamp (wrth ymyl y giat mochyn) £4500 - gweler 4.6
	Polisi
5.7	Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - cyfarfod nesaf 21.07.16 - mae y Clerc yn gobeithio mynychu'r cyfarfod
	Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
5.8	Y Côd Ymddygiad - Mabwysiadwyd y Cyngor y Cod diweddaraf gyda dim newidiadau.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Y National Grid - holiadaur i wneud a ymgynghori - bydd y Clerc yn ymateb
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Derbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol - derbyniwyd yr adroddiad.
7.2	Penderfynwyd talu y canlynnol: Gareth Hughes £300 (torri gwair), Eisteddfod Talwrn £200 (rhodd)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cytunwyd i symud i cyfarfod nesaf i 26.07.16
8.2	Mae'r Clerc wedi derbyn dau ymddiswyddiad un gan Mr Owen Davies ac un gan Mrs Manon Huws. Bydd y Clerc yn trefnu i hysbysebu 4 sedd gwag
8.3	Soniodd Cyng A Williams am tyllau ar y ffordd wrth ymyl Tan y Felin, Llanddyfnan. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
8.4	Dywedodd Cyng W Vaughan bod angen canllaw a gwaith trin ar y gamfa ar y llwybr cyhoeddus wrth ymyl yr eglwys. Hefyd, bod bagiau baw ci yn cael ei daflu i'r coed ar hyd Lon yr Ysgol. Bydd y Clerc yn dod a'r materion at sylw y Cyngor Sir.
	Llofnod…….Cadeirydd 26.07.16